# Josua



# Cyflwyniad

Video playlist

Wythnos yma byddwn yn ffocysu ar Josua, un o'r deuddeg ysbïwr oedd wedi argymell y bobl i ufuddhau i Dduw. Rhai o'r gwersi byddwn yn dysgu o'i fywyd yw—

- Dylwn fod yn amyneddgar ac ymddiried yn Nuw i roi'r pethau rydym angen i ni pan rydym yn barod amdanynt.
- Mae Duw yn gwobrwyo ein ffydd ynddo Ef.
- Gallwn fod yn gryf a dewr gan fod Duw gwastad yn addo bod gyda ni.
- Mae'n plesio Duw pan mae teuluoedd yn Ei wasanaethu gyda'i gilydd.

## Canllaw'r wers

Atgoffwch y plentyn am y deuddeg ysbïwr yn mynd i mewn i Wlad yr Addewid. Gofynnwch a ydynt yn cofio'r ffrwythau enfawr roeddynt wedi dod 'nôl i ddangos i bobl Israel. Atgoffwch y plentyn bod deg ysbïwr yn eu hargymell i anufuddhau i Dduw a'r gosb rhoddodd Duw iddynt am beidio mynd i mewn i Wlad yr Addewid.

Siaradwch am aros. Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn hoffi aros am rywbeth. Pwyntiwch allan rhai o'r gweithgareddau neu deganau hoffent gael ond maen nhw'n rhy ifanc i chwarae gyda neu i wneud. Trafodwch fod rhaid iddynt aros oherwydd eich bod eisiau iddynt fod yn ddiogel ac rydych yn gwybod beth sydd orau iddynt. Trafodwch fel mae Duw hefyd yn gwneud i ni aros am rywbeth da. I esbonio gallwch lenwi potyn gyda phridd a phlannu hedyn. Pob dydd dyfriwch yr hedyn a darllenwch adnod am amynedd. Os hoffech ganlyniad cyflymach dewiswch blanhigyn mewn pot o dy wydr gydag ychydig o flagur. Gofalwch am y planhigyn wedyn pwyntiwch allan y blodau. Siaradwch am eu prydferthwch a sut mae eich amynedd wedi cael ei dalu nôl. Meddyliwch am sut maent yn blodeuo pan mae Duw yn dweud eu bod yn barod. Nodyn: gallwch ddewis llysieuyn gyda thomatos gwyrdd a'u gwylio'n aeddfedu neu dewiswch blanhigyn eich hun. Y peth pwysig ydy i adael i'r plentyn weld pwysigrwydd amynedd a'r wobr.

Gall siarad am y tymhorau fod yn ffordd arall i egluro pwysigrwydd amser. Gallwch brintio allan bedwar cefndir i gynrychioli pob tymor. Printiwch hefyd rhai eitemau sy'n glwm i'r tymhorau. (E.e.. coeden Nadolig, ei ddyddiad pen-blwydd, dyn eira a.y.y.b.) Rhowch bob eitem yn eu tymor cywir. Dysgwch Y Pregethwr pennod 3 adnod 1 ar gof gyda'ch gilydd.

Trafodwch pa mor ddewr oedd Caleb a Josua i wrthsefyll pan oedd pawb yn anghytuno a nhw. Pwyntiwch allan fel oeddynt yn gryf ac yn ddewr oherwydd roeddynt yn gwybod bod Duw ar eu hochr. Meddyliwch nad oes rhaid i ni fod yn ofnus gan fod Duw gyda ni.

Darllenwch Josua 24:15 a siaradwch am sut oedd Josua yn dysgu ei deulu i garu ac i wasanaethu Duw. Pwyntiwch allan eich bod yn eu dysgu i garu ac i wasanaethu Duw gan fod Duw yn hapus pan mae teuluoedd yn eu cyd-wasanaethu. Gallwch edrych allan am gyfle i helpu mewn cegin cawl, yn eich eglwys a.y.y.b. byddai'n eich galluogi i wasanaethu Duw gyda'ch gilydd. (Am fwy o fanylion, nodwch wers wythnos diwethaf.)

Gweddïwch gyda'ch plentyn a gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn amyneddgar ac I'w wasanaethu bob amser.

© 2023 truewaykids.com




Dysgodd Josua ei deulu am Dduw. Roedd eisiau iddynt wneud dewisiadau da.

Gwyddai byddai rhai pobl yn caru pethau yn fwy na Duw, ond roedd Josua a'i deulu yn dewis Duw yn gyntaf. Roeddynt yn dweud "gwasanaethwn yr Arglwydd gyda'n gilydd."

Mae Duw yn hapus iawn pan mae teuluoedd yn Ei addoli a'l wasanaethu gyda'i gilydd.






Ar ôl 40 mlynedd hir yn yr anialwch, penderfynodd Duw bod Ei bobl yn barod i fynd i mewn i Wlad yr Addewid.

Josua oedd yr arweinydd nawr. Dywedodd Josua wrth y bobl beth ddywedodd Duw, yn union fel dywedodd yr holl amser yn nol, "Rhaid i ni fynd a chymryd y wlad."

Y tro yma credodd yr Iddewon Duw.



Byddai Josua yn arwain Israel i mewn i'r wlad Newydd.

Pa mor gyffroes oedd yn rhaid i hyn fod iddo!

Roedd Duw wedi gwobrwyo ffyddlondeb Josua Iddo.

Roedd Josua wedi ymddiried yn Nuw am amser hir.

Gwyddai byddai Duw bob amser yn gwneud beth ddywedodd.





Gwyddai Josua fod cewri mawr yn y wlad. Gwyddai bod milwyr cryf yno. Roedd wedi gweld y dinasoedd gyda'u waliau mawr, tal.

Oedd Josua yn amau Duw? Na! Dywedodd, "bydd Duw yn gwneud pethau enfawr i ni. Ni ddylent fod yn ofnus. Mae Duw yn mynd gyda ni bob amser. Byddwch yn gryf ac yn ddewr."

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## CART ACHAU

Helpwch eich plentyn i ddysgu am eich teulu gyda chart achau. Ffeindiwch luniau o aelodau o'ch teulu a gludwch nhw ar ddarn mawr o bapur.






## DARLUN TEULU

Beth am wneud llun hyfryd o'ch teulu i hongian rhywle yn eich tŷ?

Gallwch un ai cymryd rhai ffotograffau neu wneud darlun neu lun.

## CYD-WASANAETHU

Sut gallwch wasanaethu Duw fel teulu? Trafodwch rhai syniadau a chynlluniwch i'w gwneud.

Byddai'n bosib gwneud pryd o fwyd gyda'ch gilydd a gwahodd rhywun i fwyta gyda chi? Byddai'n bosib tacluso gardd yr eglwys? Paentio ffens i gymydog? Defnyddiwch eich doniau gyda'ch gilydd.



© 2023 truewaykids.com


# Pwy oedd wedi cyrraedd eu cartref yng ngwlad yr addewid?




© 2023 truewaykids.com

# Cart Achau






Torrwch allan y teulu isod a'u gosod yn y cart achau.



© 2023 truewaykids.com

# Beth sy'n byw ym mhle?

























© 2023 truewaykids.com

# Cyfrwch y siapiau





© 2023 truewaykids.com

# Ffrâm ddarlun 'Gwasanaethwn yr Arglwydd'

Pethau byddwch angen:

- Templed
- Cerdyn gwyn
- 7 ffon lolipop
- Glud
- Siswrn
- Ffotograff o'r teulu
- Pensiliau lliw neu greonau




## Beth i'w wneud:



Printiwch y templed ar gerdyn gwyn.




Torrwch allan y ffotograff o'r teulu a'i gludo i'r canol. Ffoto 11cm x 8cm.



Ar y llaw arall, gallwch dynnu llun o'ch teulu.



Gludwch y ffyn lolipop ymlaen.




Lliwiwch mewn unrhyw ddarn hoffech ac addurnwch.



Pan mae wedi sychu, torrwch rownd siâp y tŷ.

© 2023 truewaykids.com



"Ond
dwi a'm
teulu yn mynd
i wasanaethu'r
Arglwydd!"
Josua 24:15

© 2023 truewaykids.com

"Ond dwi a'm teulu yn mynd i wasanaethu'r Arglwydd!"

Josua 24:15




© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos ‘You Tube’ i’w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## As for me and my house

https://youtu.be/H-xxhy2CMYg

## Strong and Courageous

https://youtu.be/t34qjxa7TCI

## Wherever you go

https://youtu.be/NoG0DahAbDY



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am eich teulu. Gofynnwch Iddo eich helpu I’w wasanaethu gyda’ch gilydd.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn gryf ac yn ddewr ac i gofio Ei fod gyda chi bob amser.

# Wythnos Nesaf:

## Jericho

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com